## YR ATODLEN

| **(i)**<br>**Cyfeirnod yr Hawl Tramwy Cyhoeddus a Disgrifiad Ohoni** | |
|---|---|
| Llwybrau Troed Cyhoeddus 51/75 a 68/1 (yn rhannol) | O lwybr troed cyhoeddus 51/75, (Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans 62211348), gan ddechrau yn Heol Aberlash, (yr U4357), pwynt A ar y map, i gyfeiriad y de, gan droi tua'r dwyrain dros bont cyn parhau tua'r de-ddwyrain ar draws cae. Yna mae'r llwybr yn croesi pont arall ac yn mynd tua'r de-ddwyrain tuag at y groesfan reilffordd i bwynt ar lwybr troed cyhoeddus 68/1 (Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans 62441318), pwynt B ar y map.<br><br>Hyd: 406 metr |
| **(ii)** | **Y Ffordd Arall**<br><br>O bwynt ar lwybr troed cyhoeddus 68/1 (Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans 62441318), pwynt B ar y map, gan fynd tua'r de-ddwyrain i Heol Llandybïe, a pharhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd ar hyd Heol Llandybïe/Bonllwyn, (cefnffordd yr A483), a throi tua'r de-orllewin wrth y gyffordd â Heol Aberlash (yr U4357), a pharhau hyd at bwynt ar lwybr troed cyhoeddus 51/75 (Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans 62211348), pwynt A ar y map.<br><br>Hyd: 1172 metr |